CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2015/16

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2016. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd: Alun Mummery**
**Grwp: Plaid Cymru** **Ward: Aethwy**

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

Rwyf yn Ddeilydd Portffolio cysgodol Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol.

| **Rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2016, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | **[1]Ffigyrau Presenoldeb** |
|---|---|
| Cyngor | 7 (88%) |
| Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio (Is-Gadeirydd) | 6 (100%) |
| Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | 8 (100%) |
| Pwyllgor Apeliadau (mynychu ar sail rota) | Dim cyfarfodydd. |
| Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) | 2 (67%) |
| Is-Bwyllgor Indemniadau | Dim cyfarfodydd. |
| Mae'r ystadegau a ddarperir yn berthnasol yn unig i'r pwyllgorau a restrir yn y tabl hwn. Nid yw'r ystadegau'n cynnwys presenoldeb mewn cyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.<br><br>Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel ddeilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft. | |

Rwyf yn aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ac wedi mynychu 6 cyfarfod (100%).

Rwyf hefyd yn :
Aelod o Fwrdd Rhaglen Trawsffurfiol Gofal Cymdeithasol Pobl Hŷn
Aelod o Bwyllgor Mentora Oedolion
Bwrdd Gwasanaethau Tai
Bwrdd Diogelu Corfforaethol
Aelod o Grwp Adolygu Cynnydd Ysgolion
Aelod o Bwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol

[1] Darparwyd y ffigyrau presenoldeb gan Gyngor Sir Ynys Môn.

**2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth**

Yn aelod o Gyngor Bro Llanfairpwll a mynychu yn rheolaidd Gyngor Cymuned Penmynydd a Chyngor Tref Porthaethwy.

Rwyf yn aelod o fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Llanfairpwll.

Er ddim yn cynnal cymorthfeydd swyddogol,wedi croesawu amrhyw i'm cartref i drafod eu problemau ac wedi ymweld â llawer o'r trigolion i ymateb i'w pryderon - yn enwedig dros gyfnod y Nadolig pan fu amryw lifogydd yn yr etholaeth - ac yn cael pleser o allu helpu yr etholwyr

**3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwyf wedi bod yn weithgar yn cydweithio gyda Menter Môn i sefydlu hwb gymunedol yn Llanfairpwll er mwyn gwella'r Neuadd Goffa, a hynny gyda chymorth £16k o grant.

**4 - Dysgu a Datblygu**

Rwyf wedi mynychu'r mentrau dysgu a datblygu canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (gwybodaeth wedi'i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn):

| | |
|---|---|
| Llywodraethu Gwybodaeth – Sesiwn Gyffredinol | 24 Tachwedd 2015 |
| Sesiynau Briffio Aelodau (10 allan o 11 = 91%) | Ebrill 2015 – Mawrth 2016 |

**5 – Gweithgareddau a Materion Eraill**

Wedi mynychu bron i bob pwyllgor a bwrdd rwyf yn aelod ohonynt, sydd yn bwysig i allu cael gwybodaeth gyflawn o'r gwahanol ddyletswyddau a chyfrifoldebau mae'r Cyngor yn ymwneud â hwy ac, fel Deilydd Cysgodol Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol, rwyf wedi mynychu yn rheolaidd gyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:
http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgUserInfo.aspx?UID=161&LLL=1

| | |
|---|---|
| **Y Cynghorydd Alun Mummery** | **Ebrill 2016** |